Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Egwyddorion Arweiniol Llywodraeth Cymru ar gyfer Datblygu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 2022

2022

© Hawlfraint y Goron 2022 WG44072 ISBN digidol: 978-1-80391-486-2

# Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Cwmnïau Dŵr sy'n Datblygu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMPs)

Mae'r egwyddorion arweiniol hyn ar gyfer ymgymerwyr dŵr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn esbonio'r blaenoriaethau polisi allweddol y mae'r llywodraeth yn disgwyl i Gynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMPs) fynd i'r afael â nhw. Dylid eu darllen ar y cyd â'r Canllawiau Cynllunio Adnoddau Dŵr a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Fframwaith deddfwriaethol

3. Polisi'r Llywodraeth
i. Prif Negeseuon
ii. Argyfwng Hinsawdd
iii. Argyfwng Natur
iv. Rheoli a buddsoddi mewn adnoddau dŵr yn y dyfodol
v. Masnachu dŵr / trosglwyddiadau swmp
vi. Rheoli'r galw
vii. Y galw ar draws sectorau a Chyflenwadau Dŵr Preifat

4. Rolau a chyfrifoldebau
i. Cwmnïau dŵr
ii. Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr
iii. Llywodraeth Cymru
iv. Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ofwat
v. Asiantaeth yr Amgylchedd, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Natural England
vi. Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed
vii. RAPID

5. Diogelwch gwladol a chyfrinachedd masnachol

6. Cynlluniau Sychder

7. Y broses ar gyfer datblygu Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP)

# 1. Cyflwyniad

Rhaid i chi gynhyrchu Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP) bob pum mlynedd. Rhaid iddo nodi sut rydych yn bwriadu cadw'r cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw am ddŵr dros gyfnod o 25 mlynedd o leiaf. Ategir hyn gan eich cynllun sychder, sy'n nodi'r camau gweithredol tymor byr y byddwch yn eu cymryd wrth i sychder ddatblygu.

Mae grwpiau rhanbarthol yn cynhyrchu cynlluniau rhanbarthol hefyd – mae'r rhain yn nodi ar lefel strategol sut y caiff y cyflenwad a'r galw eu rheoli. Nid yw'n ofynnol i gynllun rhanbarthol gael ei lunio yng Nghymru ond, os ydych yn gweithredu yn Lloegr neu'n rhannu adnoddau trawsffiniol, dylech gynnwys y parthau adnoddau perthnasol yn y cynllun rhanbarthol perthnasol. Dylid dilyn yr egwyddorion arweiniol hyn a'r Canllaw Cynllunio Adnoddau Dŵr a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat wrth lunio cynllun rhanbarthol mewn perthynas â'r parthau hynny.

Mae'r Canllaw Cynllunio Adnoddau Dŵr a gyhoeddwyd gan CNC, Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a Defra yn darparu fframwaith i chi ei ddilyn wrth ddatblygu a chyflwyno eich WRMP a'ch cynlluniau rhanbarthol (fel y bo'n berthnasol). Mae'n nodi arfer da wrth ddatblygu WRMP gan gyfeirio at ddulliau i'w dilyn, y cyfle i gael hyblygrwydd yn y cynllun a'r wybodaeth y dylai ei chynnwys. Dylech ddilyn y canllaw hwn a sicrhau bod eich WRMP yn cwmpasu'r holl ofynion statudol.

Mae Strategaeth Ddŵr i Gymru Llywodraeth Cymru yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer polisi dŵr dros yr 20 mlynedd nesaf a thu hwnt.

Rhaid i'ch WRMP a'r dogfennau ymgynghori fod yn glir ac yn hygyrch gan fod hyn yn allweddol i ymgynghori ac ymgysylltu llwyddiannus. Dylent fod yn addas ar gyfer cynulleidfa eang. Dylech ymgysylltu'n rhagweithiol â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Dylech drafod eich strategaeth a'ch cynigion ymgysylltu â chwsmeriaid gyda'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac ymgysylltu'n rhagweithiol â chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill gydol y broses. Rhaid i'r WRMP gael ei gefnogi gan dystiolaeth ynghylch pam mai unrhyw opsiynau a ddewisir sy'n rhoi'r gwerth gorau i gwsmeriaid, dinasyddion a'r amgylchedd naturiol a pha ddewisiadau eraill sydd wedi'u hystyried a'u gwrthod.

Rydym yn disgwyl i arloesedd fod wrth wraidd y dull a fabwysiadwyd gan y sector dŵr yng Nghymru ac yn enwedig ein cwmnïau dŵr. Dylech archwilio dulliau arloesol o gynnal gwydnwch y cyflenwad, hyrwyddo rheoli'r galw a gwella'r amgylchedd, gan ddangos mai eich WRMP chi sy'n rhoi'r gwerth gorau.

Dylech ystyried atebion sy'n seiliedig ar natur i gynyddu gwydnwch cyflenwad dŵr ac ecosystemau, sicrhau manteision lleol a chyfrannu at anghenion adnoddau dŵr rhanbarthol (lle bo hynny'n berthnasol). Dylai hyn gynnwys integreiddio â Chynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a Chynlluniau Rheoli Basn Afon. Mae cyfleoedd i wella cynlluniau draenio/rheoli perygl llifogydd os gall atebion adnoddau dŵr ddal dŵr yn ôl mewn dalgylchoedd ucheldirol.

Dylai eich WRMP gyd-fynd â'r broses adolygu prisiau a'r dystiolaeth ar gyfer cynigion eich cynllun busnes.

Dylai eich WRMP ddarparu dull realistig o reoli adnoddau dŵr ac adlewyrchu dewisiadau cwsmeriaid. Dylai ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r opsiynau a ffefrir gennych a dangos yn glir y prif ffactorau sy'n effeithio ar y cydbwysedd rhwng opsiynau rheoli'r cyflenwad a'r galw, pa lefelau gwasanaeth a risg sy'n dderbyniol i gwsmeriaid a sut y gall y WRMP addasu i'r gwahanol risgiau ac ansicrwydd, gan gynnwys effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau.

## 2. Fframwaith deddfwriaethol

Nodir y gofynion deddfwriaethol i gwmnïau dŵr baratoi a chynnal WRMP o dan adrannau 37A i 37D o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003 a Deddf Dŵr 2014). Mae'r darpariaethau hyn yn nodi'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i chi eu dilyn wrth ddatblygu eich WRMP.

Rhaid i chi gyflwyno'ch WRMP drafft i Weinidogion Cymru ac, os yw eich ardal gyflenwi yn cynnwys unrhyw ran o Loegr, i'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr un pryd.

Mae Rheoliadau Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2007 yn rhoi rhagor o fanylion am y broses, yn enwedig o ran:

- gofynion ymgynghori;
- ymdrin â sylwadau a'r datganiad ymateb i sylwadau;
- pŵer Gweinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad neu wrandawiad;
- gofynion cyhoeddi.

Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i gwmnïau dŵr lle maent yn gweithredu yng Nghymru neu'n effeithio ar Gymru, yn ogystal â chyrff cyhoeddus gan gynnwys CNC ac Ofwat. Mae’n ei gwneud hi'n ofynnol hefyd i'r cyrff hyn amlinellu sut y byddant yn cydymffurfio â'r ddyletswydd a, phob tair blynedd o 2019 ymlaen, yn adrodd ar gydymffurfiaeth. Gellir bodloni'r gofyniad hwn drwy gynnwys yr wybodaeth mewn unrhyw gynlluniau presennol y maent yn eu llunio.

Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (adran 68) yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau dŵr gyflenwi dŵr dihalog. Nodir gofynion dŵr dihalog yn Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2018 (yng Nghymru), a diwygiadau cysylltiedig.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi nodau llesiant a ffyrdd o weithio sy'n cynnwys cydweithio'n dryloyw â rhanddeiliaid. Rydym yn disgwyl i chi fabwysiadu'r dull hwn o weithio a chyfrannu at y nodau llesiant ar bob cam drwy gydol paratoadau'r WRMP ac iddo ddangos sut y gwnaed hyn.

Mae deddfwriaeth berthnasol arall yn cynnwys Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

# 3. Polisïau'r Llywodraeth

### i) Prif Negeseuon

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021-2026) yn nodi'r weledigaeth a'r uchelgais i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae wedi ymrwymo i sicrhau bod natur a'r hinsawdd ar agenda pob gwasanaeth cyhoeddus a busnes sector preifat. Mae hyn yn gofyn am reoli adnoddau naturiol yn integredig er mwyn sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl mewn ffordd deg gan ddiogelu pob ecosystem a'r amgylchedd. Rhaid i'ch WRMP ddiwallu - cyn belled ag y bo modd - anghenion hirdymor amgylchedd cynaliadwy a gwydn a sicrhau bod digon o adnoddau dŵr dibynadwy ar gael yng Nghymru.

Dylai eich WRMP ganolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru fel yr adlewyrchir yn y saith nod llesiant a ddarperir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a dylai gefnogi sefydliadau eraill, megis CNC, i fodloni eu gofynion statudol o dan y Ddeddf honno. Dylech ddatblygu eich cynllun yng nghyd-destun cefnogi eich gallu i gynnal mynediad at wasanaethau dŵr a charthffosiaeth teg a fforddiadwy, ar gyfer pobl a busnesau.

Dylai eich WRMP nodi sut y byddwch yn darparu cyflenwadau diogel a chynaliadwy o ddŵr ac yn gweithio i wella gwydnwch cyffredinol i ddarparu mesurau diogelu rhag bygythiadau mawr i ddiogelwch bywyd a bywoliaeth – megis y rhai a achosir gan sychder, llifogydd neu ddigwyddiadau llygredd mawr.

### ii. Argyfwng Hinsawdd

**Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd, ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd yw un o'i blaenoriaethau.**

Mae Adroddiad Cymru ar Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU (CCRA3) a gyhoeddwyd yn 2021 yn tynnu sylw at newidiadau posibl i lawiad yn y dyfodol yng Nghymru, yn dibynnu ar y tymor. https://www.theccc.org.uk/publication/independent-assessment-of-uk-climate-risk/

Disgwylir i lawiad yr haf ostwng tua 15% erbyn y 2050au. Mae hyn yn golygu y gall cyfnodau o brinder dŵr ddod yn fwy cyffredin o dan y senarios hyn, gan arwain at oblygiadau posibl i'r cyflenwad dŵr cyhoeddus a sectorau eraill megis amaethyddiaeth a diwydiant. Bydd hefyd yn lleihau'r cyfraddau ail-lenwi dŵr i'n hadnoddau dŵr tanddaearol yn yr ardaloedd yng Nghymru lle maent yn bwysig. Mae llifoedd afonydd yn yr haf yn debygol o fod yn is ac mae amodau sychder yn fwy tebygol o ddigwydd. Mae ein dibyniaeth ar adnoddau dŵr wyneb yng Nghymru yn golygu bod rhaid i systemau dŵr fod yn wydn yn wyneb y straen hwn a gallu adfer yn gyflym o ergydion eithafol a all ddigwydd o dan yr amodau a ragwelir. Mae'r

newidiadau hyn yn debygol o gynyddu'r straen ar yr amgylchedd dŵr a'n seilwaith dŵr.

Yn y gaeaf, disgwylir i lawiad gynyddu tua 6% erbyn y 2050au. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y tebygolrwydd o lifogydd mewn seilwaith, busnesau a chartrefi. Bydd glawiad mwy dwys yn achosi mwy o lifogydd dŵr wyneb hefyd ac yn golchi mwy o lygryddion i mewn i'n nentydd, ein hafonydd a'n dyfroedd arfordirol.

Dylai eich WRMP ystyried y risgiau, y cyfleoedd a'r senarios a nodir yn yr asesiad hwn, a sut y bydd eich cynllun yn sicrhau cyflenwad gwydn o ddŵr.

Mae lleihau'r galw am ddŵr drwy effeithlonrwydd dŵr, cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o werth dŵr a lleihau gollyngiadau yn fesurau pwysig i annog gwydnwch dŵr ac i leihau eich ôl troed carbon drwy leihau eich defnydd o adnoddau ynni diangen (ôl troed carbon).

Mae cyflenwad diogel o ddŵr yn gofyn am fuddsoddi yn y rhwydwaith seilwaith, a'i gynnal a chadw, gan adeiladu gwydnwch rhag peryglon naturiol ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn sicrhau diogelwch digonol i bobl a'n hadnoddau naturiol.

Dylai eich asesiadau WRMP o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ddefnyddio'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf y gallem ddisgwyl ei gweld yng Nghymru. Darperir y ddealltwriaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd gan Amcanestyniadau Hinsawdd y DU 2018 (UKCP18) ond, os yw'n berthnasol, gellir defnyddio tystiolaeth ddiweddarach os bydd rheoleiddwyr yn cytuno i hynny. O ystyried maint y newidiadau hinsoddol rydym yn eu hwynebu fel cenedl, dylech sicrhau eich bod yn bwriadu sicrhau cyflenwad gwydn o ddŵr i'r dyfodol, gan gynllunio ar gyfer senario sy'n cyfateb i 4°C yn y byd go iawn. Mae'r *Atodiad ar senarios UKCP18 i'w defnyddio yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2024 (Cymru)* gan CNC yn darparu fframwaith hyblyg ar gyfer defnyddio senarios allyriadau. Bydd angen i chi drafod eich modelu hinsawdd gyda rheoleiddwyr yn gynnar.

Ar y cyd â'ch proses cynllunio busnes, dylai eich WRMP gefnogi polisi o leihau'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â thynnu, storio, trin a darparu dŵr. Dylai:

- fynd i'r afael â'r angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o fewn eich gweithrediad presennol a sut y caiff hyn ei gefnogi gan unrhyw opsiynau a nodir yn y WRMP a'u hasesiad drwy'r broses Asesu Amgylcheddol Strategol. Mae Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno fframwaith ar gyfer lleihau nwyon tŷ gwydr ledled Cymru drwy gyflwyno targedau a chyllidebau carbon. Mae Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021 yn pennu targed sero net ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050, a thargedau interim fel a ganlyn:

➢ 2021-25: Gostyngiad cyfartalog o 37% gyda therfyn credyd ("gwrthbwyso") o 0%
➢ 2026-30: Gostyngiad cyfartalog o 58%
➢ Targed 2030: Gostyngiad o 63%
➢ Targed 2040: Gostyngiad o 89%

Dylai'r WRMP gynnwys asesiad o'i effaith carbon yng Nghymru o'r cychwyn cyntaf. Dylid cyfeirio ymholiadau at decarbonisationmailbox.@gov.wales

**iii. Argyfwng Natur - Mae'r Senedd wedi datgan argyfwng natur yng Nghymru**

Mae bywyd gwyllt o dan bwysau cynyddol oherwydd gweithgarwch dynol a'r newid yn yr hinsawdd. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau dŵr gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Mae ecosystemau wrth wraidd darpariaeth gwasanaethau cwmni dŵr ac, o'r herwydd, dylech fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ecosystemau wrth gynllunio, dylunio a darparu eich gwasanaethau. Dylai egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) fod yn sail i'ch WRMP a'ch galluogi i fabwysiadu dull ecosystemau a meithrin integreiddio â chynlluniau eraill (fel y Cynllun Rhanbarthol, Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, Cynllun Rheoli Basn Afon a Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd.

Dylech fabwysiadu'r dull hwn o reoli dŵr a dylai eich WRMP egluro sut y gwnaed hyn. Mae egwyddorion SMNR yn cynnwys, er enghraifft, mynd i'r afael â blaenoriaethau a chyfleoedd ar raddfa briodol yn ogystal â chydweithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol. Drwy fynd ar drywydd SMNR, dylech ddiwallu anghenion cenedlaethau presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion – mae hyn yn cynnwys cymryd golwg hirdymor ar eich gweithrediadau a'r ecosystemau sy'n eu cefnogi drwy osod cyrchfan amgylcheddol uchelgeisiol.

Dylai eich WRMP ddangos sut y defnyddiwyd dull seiliedig ar ardal i hyrwyddo buddsoddiad strategol mewn seilwaith cynaliadwy sy'n gwella amgylcheddau lleol. Dylai gynnwys mesurau i annog arloesedd a newid tymor hwy tuag at system sy'n cydnabod gwerth yr adnodd dŵr sydd ar gael i Gymru. Mae amgylchedd o ansawdd uchel yn hanfodol i gefnogi ecosystem iach sydd, yn ei dro, yn darparu nifer o wasanaethau i bobl, bywyd gwyllt a'r amgylchedd ehangach. Dylech asesu darpariaeth gwasanaethau ecosystem unrhyw opsiwn yn eich WRMP gan y bydd hyn yn hyrwyddo dull cyson ac integredig o brisio amgylcheddol ar draws cynllunio amgylchedd dŵr. Mae'r cysondeb hwn yn cefnogi atebolrwydd, tryloywder ac yn helpu i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gallwch wneud hyn drwy fabwysiadu dull cyfalaf naturiol neu ddull cyfatebol.

Wrth ystyried costau amgylcheddol a chymdeithasol cynlluniau i gynnal cyflenwad dŵr diogel, dylai'r dull a ddefnyddir fod yn gymesur â maint y broblem. Dylech ddefnyddio'r dull 'blociau adeiladu', gan wneud asesiad ansoddol, meintiol ac yna ariannol os oes angen. Dylech esbonio a chyfiawnhau pa ddull rydych yn ei ddefnyddio yn eich cynllun.

Wrth asesu cyflwr yr asedau cyfalaf naturiol mewn ardal (os ydych yn mabwysiadu dull cyfalaf naturiol neu ddull cyfatebol), bydd angen i chi gynnwys asesiad o'r pwysau sy'n effeithio ar y cynefin / ecosystem dan sylw a gwydnwch yr ecosystem. Os ydych yn defnyddio'r asesiad hwn fel sail i asesu eich cyfraniad at y nodau llesiant, dylech sicrhau bod y metrigau a ddefnyddir yn ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddigonol.

Mae nodyn cyfarwyddyd atodol CNC ar gyfer Cymru ar benderfyniadau'n ymwneud â'r Amgylchedd a Chymdeithas yn rhoi rhagor o wybodaeth. Gallwch ofyn am gopi ganddynt drwy anfon e-bost i wrepp@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**iv. Rheoli a buddsoddi mewn adnoddau dŵr yn y dyfodol**

Dylech ystyried eich WRMP o safbwynt hirdymor (o leiaf 25 mlynedd) i sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i ystyried effeithiau pwysau yn y dyfodol megis gofynion pobl, busnes, diwydiant, datblygu economaidd, arloesi yn y dyfodol, yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd ar ein hadnoddau dŵr. Dylech ystyried a darparu atebion sy'n seiliedig ar natur lle bo hynny'n bosibl.

Dylech ddarparu'r dystiolaeth a'r cyfiawnhad dros fuddsoddiadau yn y dyfodol, a fydd yn llywio eich cynlluniau busnes fel rhan o adolygiad prisiau Ofwat. Dylech ystyried buddsoddiad o safbwynt hirdymor, heb gael eich cyfyngu gan yr adolygiad prisiau 5 mlynedd. Ni ddylech ohirio'r buddsoddiad angenrheidiol er mwyn sicrhau gostyngiadau tymor byr anghynaliadwy mewn biliau cwsmeriaid. Dylech sicrhau hefyd fod mesurau priodol yn cael eu cymryd i ystyried effeithiau pwysau yn y dyfodol megis gofynion pobl, yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd ar ein hadnoddau dŵr.

**v. Masnachu dŵr / trosglwyddiadau swmp**

Dylai unrhyw gynnig ar gyfer cytundeb trosglwyddo dŵr newydd neu addasiad i gytundeb presennol o barth adnoddau dŵr yng Nghymru i barth adnoddau dŵr yn Lloegr, neu ffynhonnell adnoddau dŵr y gellid ei throsglwyddo drwy Gymru, fod yn destun dadansoddiad ac esboniad manwl o'r canlynol:

> y manteision economaidd, amgylcheddol a lluosog i bobl Cymru

> unrhyw berygl o ddirywiad i statws corff dŵr a/neu achosi unrhyw effeithiau andwyol i safleoedd dynodedig neu yn y dalgylch a/neu atal bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, o fewn yr ardaloedd / parthau adnoddau dŵr yr effeithir arnynt gan ei weithrediad yng Nghymru

> cynllunio ar gyfer gwydnwch i amodau sychder 1:500 o leiaf ar gyfer y parthau adnoddau hynny yr effeithir arnynt gan gytundeb masnachu/swmp erbyn gweithredu'r cytundeb trosglwyddo/swmp – gan sicrhau felly na fyddant yn cael effaith andwyol ar wydnwch cyflenwadau dŵr i ddefnyddwyr Cymru neu'r amgylchedd

> mae digon o ddŵr yn y parth adnoddau dŵr heb unrhyw gost ychwanegol i ddefnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr yng Nghymru yn y dyfodol (gan ganiatáu ar gyfer twf a datblygu economaidd), gan gynnwys cyflenwadau dŵr preifat a'r holl ddefnydd arall o ddŵr ar draws sectorau

**>** mae gan Gymru dargedau statudol i leihau nwyon tŷ gwydr. Felly, dylai cynigion gynnwys asesiad o'u heffaith carbon yng Nghymru o'r cychwyn cyntaf.

Pan fo'r ateb a ffefrir i ateb y galw yn cynnwys opsiwn i drosglwyddo dŵr o barth adnoddau dŵr yng Nghymru, dylech roi cyfle i Weinidogion Cymru a CNC a rhanddeiliaid perthnasol eraill roi sylwadau ar y cynigion mor gynnar â phosibl yn y broses. Y disgwyl yw y dylid archwilio unrhyw gynigion yn ystod y cyfnod cyn ymgynghori o ddatblygu cynllun.

Dylai unrhyw gynigion ar gyfer swmp-gyflenwadau gynnwys tystiolaeth glir o gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd statudol o dan Adran 68(1)(b) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 sy'n gosod dyletswydd statudol ar ymgymerwyr dŵr i sicrhau, mewn perthynas â phob ffynhonnell neu gyfuniad o ffynonellau y cyflenwir dŵr ohonynt, nad oes unrhyw ddirywiad cyffredinol yn ansawdd y dŵr a gyflenwir o'r ffynhonnell honno neu'r cyfuniad hwnnw o ffynonellau.

Os oes gennych unrhyw gynnig ar gyfer cytundeb trosglwyddo dŵr newydd o barth adnoddau dŵr yng Nghymru i ran arall o Gymru, rhaid i chi ystyried yn llawn sut mae'r trosglwyddiad hwn yn effeithio ar wydnwch y parth, yr economi, yr amgylchedd a chymdeithas, a thrafod hyn gyda CNC

**vi. Rheoli'r galw**

Dylech gyflwyno rhagolwg cychwynnol o'r galw am ddŵr am o leiaf 25 mlynedd, gan ystyried ffactorau megis newidiadau poblogaeth a demograffig a hinsawdd sy'n newid. Dylech fabwysiadu safbwynt hirdymor hefyd, y tu hwnt i'r gorwel cynllunio 25 mlynedd lle y bo'n briodol (er enghraifft, lle y gallai fod angen buddsoddiad ar raddfa fawr tua diwedd y cyfnod o 25 mlynedd).

Dylech nodi targedau heriol a strategaeth ar gyfer lleihau'r defnydd y pen ar gyfer defnyddwyr domestig a busnes am gyfnod 5 mlynedd y WRMP ac am yr 20 mlynedd nesaf. Dylech ddangos sut rydych yn bwriadu bodloni neu ragori ar y targedau a osodwyd yn yr adolygiad prisiau.

**Dylai eich WRMP amlinellu eich strategaeth ar gyfer lleihau'r galw yn y sectorau domestig a busnes a hyrwyddo defnydd effeithlon o ddŵr. Dylid ystyried ystod eang o fesurau i helpu i leihau'r galw am ddŵr, gan gynnwys ymyriadau ffisegol megis eich polisi ar osod mesuryddion. Dylech gynnwys amcangyfrif o gyfran yr eiddo domestig sydd â mesurydd bob pum mlynedd tan o leiaf 2050.**

Gall dyluniad taliadau mesuredig wneud cyfraniad pwysig at wella effeithlonrwydd dŵr, lleihau'r defnydd o ddŵr a thynnu dŵr a gwella'r amgylchedd. Efallai y bydd budd amgylcheddol ac economaidd i gwsmeriaid yn gyffredinol os gall effaith mesuryddion ohirio'r angen am fuddsoddiadau drud mewn adnoddau newydd. Bydd hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr a chadwraeth dŵr yn helpu i liniaru effaith amgylcheddol galw cymdeithas am ddŵr, gan ddiogelu'r amgylchedd dyfrol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a sicrhau cyflenwad dŵr diogel i'r dyfodol.

Bydd twf yn y boblogaeth yn cynyddu'r galw am ddŵr. Mae defnydd domestig wedi bod yn codi. Dylid defnyddio amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar ragolygon poblogaeth ac eiddo fel llinell sylfaen ar gyfer rhagolygon poblogaeth ar gyfer WRMPs. Dylech hefyd ystyried Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040,

Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol i amcangyfrif newidiadau yn y galw ar lefel leol ac i lywio eich WRMP.

Mae gollyngiadau'n fater blaenoriaeth uchel i gwsmeriaid a gall niweidio enw da'r diwydiant. Dylech ddangos sut y bydd eich WRMP yn parhau i leihau gollyngiadau erbyn 2030 a sut y bydd hyn yn cyfrannu at ostyngiad cyffredinol o 50% mewn gollyngiadau erbyn 2050 yn unol â tharged y diwydiant dŵr.

Mae hyn yn gofyn am ddull strategol o reoli gollyngiadau i lywio'r rhagolygon gollyngiadau hirdymor yn eu WRMPs. Dylech ystyried y gwerth mae cwsmeriaid yn ei roi ar leihau gollyngiadau a'r manteision a ddaw yn sgil hyn mewn perthynas â pharodrwydd eu cwsmeriaid i gymryd rhan mewn prosesau rheoli'r galw, yn ogystal â manteision eraill i'r amgylchedd.

Dylai eich WRMP ddangos sut y byddwch yn arloesi ac yn datblygu arbenigedd o ran atal, nodi ac atgyweirio gollyngiadau'n fwy effeithiol.

**vii) Y galw ar draws sectorau a Chyflenwadau Dŵr Preifat**

Dylai eich WRMP ystyried anghenion amlsector lleol a chynnwys, o fewn eich rhagolygon cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw, anghenion y cwsmeriaid hynny, megis amaethyddiaeth a busnesau, sydd â'r gallu i newid i'r prif gyflenwad yn ystod cyfnodau brig. Dylech ystyried eich polisi ar gyfer cefnogi defnyddwyr dŵr eraill hefyd megis y rhai ar gyflenwadau dŵr preifat heb unrhyw gysylltiad â'r prif gyflenwad a allai fod yn rhedeg allan o ddŵr yn ystod adegau brig megis tywydd sych/ rhew yn dadmer. Dylai'r WRMP nodi a allwch ddarparu cyflenwadau dŵr amgen yn y sefyllfaoedd hyn, a sut, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol.

Lle mae cynlluniau adnoddau dŵr yn cael eu hystyried, dylid ystyried manteision lluosog – dylai eich WRMP nodi sut y gwnaed hyn a nodi manteision lluosog. Yn benodol, dylid ystyried sut y gall tynnu a storio dŵr helpu i leddfu'r perygl o lifogydd mewn ardaloedd sydd mewn perygl.

Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar gyfer afon Hafren, afon Dyfrdwy a'r Gorllewin yn ofynnol bob chwe blynedd o dan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017. Maent yn tynnu sylw at y pwysau ar yr amgylchedd dŵr ac yn dangos beth mae hyn yn ei olygu i gyflwr presennol yr amgylchedd dŵr yn yr ardal basn afon, a pha gamau a gymerir i fynd i'r afael â'r pwysau. Dylai eich WRMP ddangos sut rydych yn cefnogi cyflawni amcanion y Cynlluniau Rheoli Basn Afon, tynnu sylw at unrhyw flaenoriaethau posibl sy'n cystadlu â'i gilydd rhwng y cynlluniau a chysoni â'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon.

Mae CNC wedi paratoi datganiadau ardal o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylai eich WRMP nodi'r ystyriaeth a roddir i bob datganiad ardal a sut y gall gyfrannu at y camau gweithredu a'r gwelliannau y nodwyd eu bod yn ofynnol. Dylai'r WRMP nodi sut mae hyn yn cael ei wneud a dylai amlinellu sut y bydd yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## 4. Rolau a chyfrifoldebau

### i) Cwmnïau dŵr

Dylech baratoi a chynnal WRMPs gyda chyfranogiad eich cwsmeriaid. Rhaid i chi ddangos sut y byddwch yn rheoli ac yn datblygu adnoddau dŵr i gydbwyso'r cyflenwad a'r galw am ddŵr. Rhaid i chi sicrhau bod yr holl drefniadau wedi'u gwneud ar gyfer:

(a) darparu dŵr i gwsmeriaid yn ei ardal.
(b) cynnal, gwella ac ymestyn ei brif gyflenwad dŵr a phibellau eraill.
(c) cynnal system effeithlon a darbodus o gyflenwi dŵr yn ei ardal.

Rhaid i chi adolygu eich WRMP bob blwyddyn ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ac anfon datganiad o gasgliadau ei adolygiad at Weinidogion Cymru.

Bydd gofyn i chi baratoi WRMP diwygiedig ym mhob un o'r achosion canlynol:

- os oedd yr adolygiad blynyddol wedi dangos newid sylweddol mewn amgylchiadau - h.y. y rhai ag effeithiau sylweddol ar gwsmeriaid neu'r amgylchedd naill ai drwy golli diogelwch cyflenwad neu filiau uwch. Fel arfer, ni fyddai newidiadau nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar ddiogelwch cyflenwad, yr amgylchedd neu filiau cwsmeriaid yn golygu bod gofyn i chi baratoi ac ymgynghori ar WRMP diwygiedig;
- os ydych wedi cael eich cyfarwyddo i wneud hynny gan Weinidogion Cymru;
- o fewn pum mlynedd i ddyddiad cyhoeddi ei WRMP neu WRMP diwygiedig.

### ii) Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr - Defnyddwyr wrth wraidd y ddarpariaeth

**Dylech drafod ac ymgysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ar eich strategaeth arfaethedig ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â chwsmeriaid yn gynnar a gydol y broses gyfan.**

Mae'r Strategaeth Ddŵr i Gymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau ffocws cryf ar ddefnyddwyr wrth wraidd darpariaeth gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth gadarn o anghenion defnyddwyr nawr ac yn y dyfodol, a llais cryf ar gyfer cynrychiolaeth defnyddwyr.

Dylech ymgysylltu â'ch cwsmeriaid a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn uniongyrchol a thrwy ymgynghoriad yn gynnar yn y broses o ddatblygu WRMP fel rhan o'u deialog barhaus â'u cwsmeriaid. Dylech geisio integreiddio canfyddiadau o'r ymgysylltu hwn yn y broses adolygu prisiau sydd i ddod er mwyn helpu i sicrhau cysondeb wrth ddatblygu cynlluniau busnes a buddsoddi. Er enghraifft, gall fod gan ddefnyddwyr farn ar lefelau'r gwasanaeth (o ran amlder y cyfyngiadau ar ddefnydd) neu fod â blaenoriaethau neu bryderon penodol ynghylch lefelau mesuryddion a gollyngiadau.

Mae angen i gwsmeriaid wybod bod y biliau y maent yn eu talu yn deg ac yn gyfreithlon. Mae ymgysylltiad da â defnyddwyr yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn.

**iii) Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r egwyddorion arweiniol hyn, gan nodi'r hyn sy'n ofynnol yn eich WRMP. Yn dilyn cyhoeddi'r WRMP drafft, mae grwpiau â diddordeb yn anfon sylwadau at Weinidogion Cymru a chaiff y rhain eu hanfon ymlaen fel y bo'n briodol. Dylech ddilyn y canllawiau sydd yn y Canllaw Cynllunio Adnoddau Dŵr a gyhoeddwyd gan CNC, Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd wrth baratoi eich WRMP.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y WRMP a'r datganiad ymateb i benderfynu a ddylid cynnal gwrandawiad cyhoeddus neu ymchwiliad, a bydd yn gofyn am gyngor gan CNC cyn gwneud penderfyniad.

Gall Llywodraeth Cymru eich cyfarwyddo i wneud newidiadau neu i gyhoeddi (ac ymgynghori ar) WRMP newydd.

**iv) Ofwat a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

Ofwat yw rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr, a CNC yw'r rheoleiddiwr amgylcheddol. Mae Adran 37A(8)(a) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn ei gwneud hi'n ofynnol i chi ymgynghori â nhw cyn paratoi eich WRMP. Unwaith y bydd y WRMP drafft wedi'i gyhoeddi, gall CNC ac Ofwat gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ar ei gynnwys.

Mae CNC yn cynghori Gweinidogion Cymru mewn perthynas â WRMPs lle maent yn effeithio ar Gymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud hi'n ofynnol i CNC fynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) a chymhwyso egwyddorion SMNR wrth arfer ei holl swyddogaethau. Bydd CNC yn rhoi cyngor mewn modd a fydd yn cymhwyso'r egwyddorion hyn sy'n cynnwys canlyniadau camau gweithredu yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, y gwasanaethau a ddarperir gan ecosystemau, cyfranogiad y cyhoedd a gwydnwch ecosystemau.

Mae CNC yn cyhoeddi canllawiau cynllunio technegol i chi eu dilyn wrth ddatblygu a chyflwyno eich WRMPs. Byddant yn rhoi cyngor i chi gydol y broses gynllunio i'ch helpu i ddeall yr hyn mae angen i chi ei wneud i gydymffurfio â'r canllawiau ac egwyddorion arweiniol y llywodraeth.

Bydd CNC yn adolygu'r datganiad ymateb ac unrhyw WRMP diwygiedig er mwyn rhoi adborth cynnar i'r cwmni ar unrhyw bryderon sy'n weddill. Y nod fydd arwain y cwmni ar yr hyn a fydd yn dderbyniol ar gyfer y cynllun busnes ac WRMP.

Bydd CNC yn cynghori Gweinidogion Cymru ar gynnwys y WRMP drafft pan gaiff ei gyhoeddi. Bydd hyn yn ymdrin ag unrhyw faterion y mae'n eu hystyried yn berthnasol a byddant yn cael eu gosod yn erbyn cyd-destun safbwynt polisi'r Llywodraeth ar gyfer rheoli adnoddau dŵr a'r Canllawiau Cynllunio Adnoddau Dŵr.

Bydd CNC ac Ofwat yn rhoi adborth clir ar eich WRMP wrth ei gyhoeddi ar unrhyw bryderon, gan ddarparu cyfarwyddiadau penodol lle bo hynny'n bosibl, fel y gallwch fynd i'r afael â nhw yn eich datganiad ymateb os yn briodol. Efallai y byddwch yn dewis cynhyrchu WRMP drafft diwygiedig i gyd-fynd â'ch datganiad ymateb. Yn absenoldeb hyn, dylech egluro'n glir unrhyw newidiadau rydych wedi'u gwneud i'ch WRMP drafft.

Unwaith y bydd y datganiad ymateb yn cael ei gyhoeddi, bydd CNC yn rhoi cyngor technegol i Weinidogion Cymru i'n helpu i benderfynu ar y camau nesaf. Mae'r dystiolaeth y gofynnir amdani yn debygol o gynnwys:

- a yw'r WRMP drafft yn bodloni'r gofynion statudol;
- a yw'r cwmni wedi mynd i'r afael yn briodol â'r sylwadau a dderbyniwyd;
- a yw'r newidiadau a gynigir yn y datganiad ymateb yn wahanol iawn i'r drafft y gwnaethoch ymgynghori arno ai peidio;
- y gwelliannau y mae'n cynghori y dylid eu gwneud i'r WRMP drafft.

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylech gyhoeddi eich WRMP drafft, bydd CNC yn cynghori a yw'n bodloni unrhyw Gyfarwyddiadau neu ganllawiau gan Weinidogion. Yna bydd CNC yn rhoi cyngor i chi ar weithredu eich cynllun WRMP terfynol a pharatoadau ar gyfer y WRMP nesaf.

Os bydd eich WRMP yn mynd i wrandawiad neu ymchwiliad, bydd CNC yn brif barti i'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad a bydd yn cyflwyno barn polisi'r Llywodraeth. Mae gwrandawiadau ac ymchwiliadau’n gyfle i faterion dadleuol gael eu hystyried gan arolygydd.

Gallwch ofyn i CNC am help i ymateb i unrhyw gais gan Lywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth. Efallai y gofynnir i CNC roi cyngor i Weinidogion unwaith y bydd y wybodaeth ychwanegol yn cael ei chyflwyno.

**v) Asiantaeth yr Amgylchedd, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Natural England**

Dylech ymgysylltu â'r sefydliadau hyn mewn perthynas ag unrhyw ran o'ch WRMP sy'n ymwneud â Lloegr, ac mae'r ddau yn ymgynghoreion statudol.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwneud sylwadau ar rannau Saesneg y WRMP drafft ac yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ar gynnwys y cynllun WRMP drafft. Unwaith y cyhoeddir y datganiad ymateb, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwneud sylwadau ar faterion sy'n effeithio ar Loegr i Lywodraeth Cymru drwy CNC.

Mae Natural England yn gyfrifol am ddiogelu cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau sy'n dibynnu ar ddŵr, yn enwedig safleoedd Ewropeaidd, safleoedd Ramsar a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn Lloegr.

**vi) Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI)**

Mae gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed gyfrifoldebau o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 sy'n ymwneud â digonolrwydd ac ansawdd cyflenwadau dŵr.

**vii) RAPID**

Mae RAPID yn bartneriaeth sy'n cynnwys y tri rheoleiddiwr dŵr yn Lloegr – Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI). Mae'n gweithio gyda rhanddeiliaid a'i nod yw gwella rheoleiddio a dileu rhwystrau i helpu'r sector i ymateb i heriau adnoddau dŵr hirdymor, gan hyrwyddo buddiannau gorau defnyddwyr dŵr, cymdeithas a'r amgylchedd ar yr un pryd. Mae gan rywfaint o'i waith oblygiadau trawsffiniol a gallai effeithio ar adnoddau dŵr yng Nghymru. Felly, mae CNC yn gwneud cyfraniad drwy gynghori ac mae ganddo rôl gwneud penderfyniadau ar gyfer unrhyw faterion sy'n ymwneud â Chymru. Mae RAPID yn ymgysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr hefyd.

# 5. Diogelwch gwladol a chyfrinachedd masnachol

Gall WRMPs gynnwys gwybodaeth y gellid ei hystyried yn sensitif ar sail diogelwch gwladol.

Wrth gyflwyno eich WRMP drafft i Weinidogion Cymru i gytuno i'w gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad, dylech gyflwyno datganiad gan eich Rheolwr Diogelwch. Dylai hyn ardystio bod y WRMP drafft wedi'i adolygu ac nad yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n peryglu buddiannau diogelwch gwladol. Dylai hefyd ddweud a yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir ei hystyried yn fasnachol gyfrinachol. Pan fydd gwybodaeth wedi'i golygu allan, dylech nodi natur y wybodaeth sydd wedi'i dileu.

Gall Gweinidogion Cymru eich cyfarwyddo hefyd i hepgor unrhyw wybodaeth o'r WRMP a fyddai'n groes i fuddiannau diogelwch gwladol neu a fyddai'n cael ei hystyried yn fasnachol gyfrinachol. (Adran 37B(10)(a) a (b) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003)

Mae canllawiau'r adran dechnegol a'r tablau cynllunio sy'n atodol i'r egwyddorion arweiniol yn dangos rhai meysydd sy'n sensitif, a bydd angen i gwmni benderfynu a ddylid eithrio hyn o fersiwn gyhoeddus y cynllun.

# 6. Cynlluniau Sychder

Mae Cynlluniau Sychder yn nodi'r camau tymor byr y bydd cwmni'n eu cymryd cyn, yn ystod ac ar ôl sychder. Dylai cwmnïau ystyried yr agweddau cyffredin hynny ar Gynlluniau Sychder a WRMPs wrth ddatblygu eu WRMP drafft. Yn benodol, gall

newidiadau i allbwn y gellir ei ddefnyddio a lefelau gwasanaeth effeithio ar y ddau gynllun.

Dylech sicrhau bod lefelau gwasanaeth yn gyson rhwng y Cynllun Sychder a'ch WRMP. Mae amlder y cyfyngiadau hyn yn cyfateb i lefelau gwasanaeth cwsmeriaid, y dylai cwmnïau eu pennu drwy ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid. Mae'r man cychwyn ar gyfer lefelau gwasanaeth arfaethedig o fewn y WRMP. Os oes unrhyw wahaniaethau mewn lefelau gwasanaeth oherwydd digwyddiadau sychder a'r broses o gynllunio ar gyfer sychder, bydd angen i chi ddiwygio eich lefelau gwasanaeth WRMP yn unol â hynny. Os byddwch yn newid eich lefelau gwasanaeth fel rhan o'r broses WRMP, dylech ystyried goblygiadau hyn yng nghyd-destun eich Cynllun Sychder hefyd.

Dylai'r WRMP nodi'n glir y rhagdybiaethau a wnaed yn yr asesiad o allbwn y gellir ei ddefnyddio o ran sut mae mesurau'n ymwneud â'r galw wedi'u cynnwys / cyfrif. Dylai hyn adlewyrchu'r drefn weithredu dybiedig o ran rhoi mesurau'n ymwneud â'r galw ar waith cyn i unrhyw ddŵr ychwanegol gael ei gymryd o'r amgylchedd drwy drwydded sychder yr ochr gyflenwi a cheisiadau am orchmynion sychder a nodir yn y Cynllun Sychder.

Gall newidiadau i allbwn y gellir ei ddefnyddio o weithredu eich WRMP olygu newid yn y dŵr sydd ar gael mewn senario sychder. Gall hyn, yn ei dro, effeithio ar bryd mae angen camau rheoli sychder mewn sychder. Dylech ystyried goblygiadau newidiadau i allbwn y gellir ei ddefnyddio yn y Cynllun WRMP i'ch Cynllun Sychder.

Os yw eich WRMP neu eich Cynllun Sychder yn nodi ei bod hi'n debygol y bydd angen mesurau megis gwaharddiadau defnydd dros dro (TUBs) a thrwyddedau a gorchmynion sychder er mwyn bodloni eu lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt, dylech nodi sut rydych yn bwriadu gwella gwydnwch cyflenwadau dros y cyfnod 2025 – 2035, felly mae'n llai tebygol y bydd angen y rhain.

# 7. Y broses ar gyfer datblygu cynllun rheoli adnoddau dŵr

Mae'r diagram isod yn rhoi trosolwg o'r broses statudol ar gyfer datblygu cynllun rheoli adnoddau dŵr. Gydol y broses hon, dylech barhau i adolygu'r cynigion sy'n dod i'r amlwg a gyflwynir mewn Cynlluniau Rhanbarthol a allai effeithio ar unrhyw un o'ch parthau adnoddau dŵr.



Mae'r camau a rifir isod yn cyfateb i'r diagram uchod.

**Cam 1 - Paratoi ar gyfer ymgynghoriad**

**Pwy?** Cwmnïau dŵr.

**Beth?** Adolygu WRMPs presennol ac ystyried unrhyw welliannau.

- Adolygu argymhellion o adolygiadau WRMP blaenorol CNC, ymgyngoreion statudol, cyfarwyddiadau gan y Llywodraeth a'r gwersi a ddysgwyd o brofiad diweddar cwmnïau dŵr.
- Mae'n bwysig adolygu WRMP yng nghyd-destun Cynlluniau Sychder i sicrhau bod y cynlluniau'n gyson.

**Cam 2 - Ymgynghori cyn paratoi cynlluniau drafft**

**Pwy?** Cwmnïau dŵr.

**Beth?** Ymgynghorwch â'r grwpiau canlynol cyn paratoi'r cynllun drafft:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ofwat
- Gweinidogion Cymru
- Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr
- Unrhyw gyflenwr dŵr trwyddedig neu benodedig sy'n cyflenwi dŵr yn ardal y cwmni dŵr drwy system gyflenwi'r cwmni. Rhaid i gyflenwr dŵr trwyddedig roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y cwmni dŵr i baratoi ei gynllun rheoli adnoddau dŵr. Dylai cwmnïau ystyried yr wybodaeth hon lle bynnag y bo modd wrth ddatblygu eu cynlluniau.
- Cwsmeriaid, gan gynnwys drwy ymgysylltiad lleol uniongyrchol
- Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a'r Ysgrifennydd Gwladol (os yw'r cynllun yn effeithio ar ardaloedd yn Lloegr)
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Arolygiaeth Dŵr Yfed
- Grwpiau Rhanbarthol (fel y bo'n berthnasol)

Mae'n arfer da cynnwys CNC, Ofwat a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr gydol y cam hwn wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu. Gall perthynas waith agos yn ystod y cyfnod hwn wella'r cynllun a lleihau'r angen am newidiadau pellach yn dilyn yr ymgynghoriad.

Ymgynghori â grwpiau eraill a allai fod â diddordeb mewn camau gweithredu yn y cynllun, neu a allai gael eu heffeithio'n uniongyrchol ganddynt.

Ymgynghori â chwmnïau dŵr cyfagos, RAPID a thrydydd partïon am opsiynau posibl. Gall partïon eraill gynnig opsiynau i'r cwmni dŵr eu cynnwys yn ei WRMP, er enghraifft, partïon â'u hadnoddau dŵr eu hunain yn ardal benodedig y cwmni dŵr neu gwmnïau dŵr cyfagos sy'n gallu darparu cyflenwadau swmp. Rhaid i gwmnïau dŵr ystyried y ceisiadau hyn gan bartïon eraill.

Ystyried barn cwsmeriaid i lywio eu WRMPs. Dylech ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i ganfod barn cwsmeriaid a'u cynnwys mewn penderfyniadau. Gall grwpiau ffocws a mewnbwn gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr helpu i herio ansawdd yr ymgysylltiad hwn ar ei gynllun drafft a'r ymateb iddo. Gall ymgysylltiad lywio trafodaeth a helpu i gyfleu'r materion hefyd, yn ogystal â rhoi cyfle i gwmnïau wrando ar flaenoriaethau a phryderon posibl.

Mae'r broses cyn ymgynghori'n gyfle i chi egluro eich dull gweithredu cyffredinol a thynnu sylw at wahaniaethau allweddol o gymharu â'i gynllun blaenorol. Dylech ddefnyddio'r cyfle i nodi unrhyw feysydd yn y cynllun lle gallech fabwysiadu ymagwedd wahanol i'r canllaw ac egluro'r rhesymau pam.

Dylai'r sefydliadau hynny yr ymgynghorir â nhw ddefnyddio'r cyfnod cyn ymgynghori i egluro'r hyn y maent yn ei ddisgwyl gan y cynllun a thynnu sylw at unrhyw faterion a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod cynllunio blaenorol lle mae angen gweithredu, yn ogystal â chodi unrhyw bryderon posibl.

Gallwch gynnwys crynodeb o'r wybodaeth a gawsant o'u cynlluniau drafft cyn ymgynghori, ond nid yw hyn yn ofyniad.

**Pryd?** Dechreuwch ymgynghori cyn paratoi cynlluniau drafft heb fod yn hwyrach na thair blynedd ar ôl i chi gyhoeddi eich cynllun terfynol blaenorol. Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, rydym yn argymell, pan fo cynllun rheoli adnoddau dŵr wedi newid yn sylweddol, y dylai proses cyn ymgynghori ddechrau heb fod yn hwyrach na chwe mis i mewn i'r 12 mis a ganiateir i gwmnïau ddiwygio eu cynlluniau.

Rydym yn awgrymu y dylech gyflwyno ceisiadau am wybodaeth o fewn chwe wythnos i ddechrau adolygu eich cynllun drafft a chaniatáu amser priodol ar gyfer ymatebion.

## Cam 3 - Paratoi cynlluniau drafft yn unol â Chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a chanllaw'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr

**Pwy?** Cwmnïau dŵr.

**Beth?** Paratoi WRMP drafft ar ôl y broses cyn ymgynghori.

- Dilyn y rheoliadau a'r cyfarwyddiadau perthnasol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar ffurf y cynllun a'r hyn y dylai'r cynllun fynd i'r afael ag ef.

- Dilyn y canllaw hwn i helpu i sicrhau bod y cynllun rheoli adnoddau dŵr drafft yn cwmpasu'r gofynion fel y nodir o dan adran 39B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Ystyried yr wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r broses cyn ymgynghori i ddatblygu cynlluniau drafft a chynnwys manylion unrhyw geisiadau gan bartïon eraill y maent wedi'u derbyn ac, os gwrthodwyd unrhyw geisiadau, esbonio pam yn y cynllun drafft.

**Pryd?** Yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

## Cam 4 - Cyflwyno cynlluniau drafft i Weinidogion Cymru

**Pwy?** Cwmnïau dŵr.

**Beth?** Cyflwyno cynlluniau drafft.

- Dylai'r cyflwyniad gynnwys crynodeb (gan gynnwys crynodeb annhechnegol), prif adroddiad, adroddiadau technegol a thablau.

- Dylai'r cyflwyniad gynnwys datganiad i ddatgan a yw unrhyw wybodaeth yn y cynllun yn fasnachol gyfrinachol, neu y gellid ei hystyried felly, mewn perthynas â'r cwmni neu barti arall, a hysbysu Gweinidogion Cymru. Rhaid i'r cwmni ddarparu enwau a chyfeiriadau trydydd partïon perthnasol hefyd.

- Sicrhau bod holl gynnwys y cynllun drafft ar gael i'r cyhoedd oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cytuno iddo gael ei ystyried yn fasnachol gyfrinachol.

- Bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn i CNC adolygu'r cynlluniau drafft fel cynghorydd technegol y Llywodraeth ac mewn perthynas â'i gyfrifoldeb dros reoli adnoddau dŵr.

- Hefyd, wrth gyflwyno'r cynllun drafft, rhaid i'r cwmni dŵr hysbysu unrhyw ymgeiswyr a yw eu ceisiadau i gyflenwi dŵr wedi bod yn llwyddiannus ai peidio, a rhoi rhesymau iddynt pam nad oedd eu cais yn llwyddiannus.

**Pryd?** Rhaid i chi gyflwyno cynlluniau drafft i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na phum mlynedd ar ôl i'ch cynllun terfynol blaenorol gael ei gyhoeddi.

***Os yw eich ardal gyflenwi’n cynnwys unrhyw ran o Loegr, dylech anfon eich cynlluniau drafft at yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd pan fyddwch yn eu cyflwyno i Weinidogion Cymru***

**Cam 5 – Gwirio cynlluniau am wybodaeth sy'n risg i ddiogelwch gwladol a/neu gyfrinachedd masnachol a hysbysu partïon y mae eu gwybodaeth wedi'i chynnwys mewn cynlluniau drafft**

**Pwy?** Gweinidogion Cymru.

**Beth?** Gwirio cynlluniau am wybodaeth sensitif. Bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu unrhyw drydydd partïon a enwir y gallai eu gwybodaeth fod yn fasnachol gyfrinachol fod eu gwybodaeth sensitif wedi'i chynnwys yn y cynllun a bod rhaid cyhoeddi'r cynllun.

**Cam 6 – Cyflwyno sylwadau ar wrthwynebiadau i Weinidogion Cymru ynghylch cynnwys data sy'n fasnachol sensitif, os oes angen**

**Pwy?** Cwmnïau dŵr a thrydydd partïon.

**Beth?** Lle y bo'n briodol, codi gwrthwynebiadau i gyhoeddi cynlluniau drafft sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n fasnachol sensitif iddynt a chyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru i gyfiawnhau'r gwrthwynebiad.

**Cam 7 – Asesu sylwadau a hysbysu cwmnïau dŵr am benderfyniadau a wneir ar gyfrinachedd masnachol a diogelwch gwladol**

**Pwy?** Gweinidogion Cymru.

**Beth?** Asesu sylwadau a hysbysu cwmnïau am benderfyniadau i ddiwygio/cyhoeddi eu cynlluniau drafft.

- Adolygu unrhyw sylwadau a dderbyniwyd ynghylch a ddylid hepgor gwybodaeth o'r cynllun drafft cyhoeddedig oherwydd cyfrinachedd masnachol.
- Penderfynu a yw'r wybodaeth yn fasnachol gyfrinachol ai peidio a hysbysu'r cwmni dŵr yn unol â hynny.
- Cyfarwyddo cwmnïau i hepgor gwybodaeth os yw'n ymddangos ei bod yn peri risg i ddiogelwch gwladol. Os yw cwmni o'r farn nad oes gwybodaeth yn ei gynllun a allai fod yn fasnachol gyfrinachol, dylai gadarnhau gyda Gweinidogion Cymru a all fynd ymlaen i gyhoeddi ei gynllun drafft.

## Cam 8 - Cyhoeddi a dosbarthu cynlluniau drafft fel y nodir mewn rheoliadau

**Pwy?** Cwmnïau dŵr.

**Beth?** Cyhoeddi cynlluniau drafft ar wefan y cwmni ac ar bapur, gan gynnwys crynodeb annhechnegol clir ac ymgysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ar eich strategaeth cyhoeddi ac ymgysylltu.

- Cyhoeddi atodiad i'ch cynlluniau sy'n cynnwys rhestr o'r bobl a'r sefydliadau rydych wedi ymgynghori â nhw'n uniongyrchol a rhoi manylion am ble a sut rydych wedi sicrhau bod y cynllun ar gael i'r cyhoedd.
- Cyhoeddi datganiad gyda'r cynllun drafft yn nodi a oes unrhyw wybodaeth fasnachol gyfrinachol wedi'i hepgor a natur gyffredinol yr wybodaeth.
- Disgrifio sut y gall unrhyw barti â diddordeb wneud sylwadau, gan nodi ble y dylid anfon y sylwadau a'r dyddiad erbyn y mae'n rhaid i sylwadau ddod i law Weinidogion Cymru.
- Cyhoeddi'r cynllun drafft ar wefan y cwmni ac ystyried sut i roi gwybod i bartïon â diddordeb, gan gynnwys grwpiau cwsmeriaid, ei fod wedi'i gyhoeddi.
- Anfon copïau electronig o gynlluniau drafft at yr ymgyngoreion statudol a restrir yn Rheoliadau Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2007. Rhaid anfon copïau papur lle na ellir anfon y cynllun drafft yn electronig, at ymgyngoreion ar gais, a'u darparu ym mhrif swyddfa'r cwmni.

**Pryd?**

- Aros am gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru cyn cyhoeddi'r cynllun drafft, a'i gyhoeddi gan ddilyn unrhyw ddyddiadau a nodir yn y Cyfarwyddyd.
- Cyhoeddi'r cynllun drafft ar gyfer ymgynghori o fewn pedair wythnos i dderbyn y Cyfarwyddyd.

## Cam 9 - Cyfnod cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru

**Pwy?** Cwmnïau dŵr ac ymgyngoreion.

**Beth?** Pennu a chynnal cyfnod ymgynghori ar gyfer gwneud sylwadau ar y cynllun drafft.

- Pennu ble y dylai grwpiau â diddordeb anfon sylwadau a'r dyddiad diweddaraf y dylai Gweinidogion Cymru dderbyn y sylwadau. Gall unrhyw barti sydd am wneud sylwadau ar gynllun drafft, gan gynnwys cwmnïau dŵr cyfagos neu drydydd partïon nad yw eu hopsiynau arfaethedig yn rhan o'r ateb a ffefrir a gynigir yn y cynllun drafft, gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

- Cynnwys eich cwsmeriaid yn llawn wrth ymgynghori ar eu cynlluniau drafft. Dylech ystyried a thrafod gyda'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr y ffordd orau o sicrhau bod y cyhoedd a'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio yn ymwybodol o'r cynlluniau drafft.

**Pryd?**

- Caniatáu o leiaf 12 wythnos i ymgyngoreion ymateb i'r cynlluniau drafft, a chyfnod hwy ar gyfer cynlluniau mwy cymhleth. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr, gan gynnwys y Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Dylid caniatáu digon o amser i bartïon nad ydynt yn gyfarwydd â'r cynllun neu â chynlluniau adnoddau dŵr ystyried y materion.

- Cyhoeddi eich datganiad ymateb i sylwadau (manylion yng Ngham 11 isod) o fewn 26 wythnos i gyhoeddi eich cynllun drafft ac ystyried hyn wrth bennu faint o amser i'w ganiatáu ar gyfer sylwadau.

## Cam 10 - Derbyn ac anfon sylwadau ymlaen at gwmnïau dŵr

**Pwy?** Gweinidogion Cymru.

**Beth?** Anfon copïau o sylwadau at gwmnïau dŵr ac at CNC i'w hadolygu yn ei rôl fel cynghorydd technegol i Lywodraeth Cymru.

Dylai cwmnïau dŵr ystyried a ddylid cynnwys partïon â diddordeb i ddatrys materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, cyn paratoi datganiad ymateb.

## Cam 11 - Asesu sylwadau a chynhyrchu datganiad ymateb

**Pwy?** Cwmnïau dŵr.

**Beth?** Asesu sylwadau a wnaed ar y cynllun drafft a chynhyrchu a chyhoeddi datganiad ymateb. Dylai’r datganiad gynnwys:

- esboniad o sut yr ystyriwyd y sylwadau
- amlinelliad o unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynllun a'r rhesymau dros wneud y newidiadau hyn.
- esboniad clir o sut mae'r newidiadau'n effeithio ar rannau o'r cynllun neu'r cynllun cyfan.
- unrhyw newidiadau yn yr amseru a'r cynlluniau a ddewisir i gynnal cydbwysedd cyflenwad.
- esboniad lle nad yw wedi gwneud newidiadau o ganlyniad i sylwadau.
- Ystyried a yw'r datganiad ymateb yn unig yn rhoi digon o fanylion i gwsmeriaid a rhanddeiliaid ddeall y newidiadau y mae cwmni wedi'u gwneud i'w gynllun. Nid oes angen cynllun drafft diwygiedig, ond dylech ystyried a fyddai'n helpu grwpiau â diddordeb i ddeall y newidiadau a wnaed drwy'r datganiad ymateb.
- Os cynhyrchir cynllun terfynol drafft diwygiedig, dylai fod mor agos â phosibl i'r cynllun drafft o ran fformat a strwythur; dylid cyflwyno unrhyw newidiadau mawr rhwng y cynllun drafft, y cynllun drafft diwygiedig a'r cynllun terfynol yn glir ac yn gynhwysfawr yn y datganiad ymateb.
- Cyhoeddi'r datganiad ymateb ar wefan y cwmni a rhoi gwybod i'r rhai a wnaeth sylwadau, gan gynnwys grwpiau cwsmeriaid, ei fod wedi'i gyhoeddi.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â CNC i gael cyngor ar ddatganiad ymateb y cwmnïau dŵr. Bydd CNC yn ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd mewn perthynas ag unrhyw feysydd yn y datganiad ymateb sy'n effeithio ar Loegr.

**Pryd?** Rhaid i chi gyhoeddi datganiad ymateb i sylwadau o fewn 26 wythnos i gyhoeddi eich cynllun drafft.

## Cam 12 – Asesu'r angen am wrandawiad/ymchwiliad ar gynlluniau drafft

**Pwy?** Gweinidogion Cymru.

**Beth?** Cyfarwyddo y dylid cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad cyhoeddus mewn perthynas â'r cynllun rheoli adnoddau dŵr drafft os oes angen.

- Drwy gynnwys grwpiau â diddordeb yn effeithiol gydol y broses ymgynghori, efallai y bydd cwmni dŵr yn gallu datrys llawer o

faterion sy'n ymwneud â'i gynllun. Efallai y bydd angen gwrandawiad neu ymchwiliad lle mae gwrthdaro barn sylweddol heb ei ddatrys; pan nad yw cwmni dŵr wedi darparu digon o dystiolaeth i gyfiawnhau camau gweithredu penodol neu lle gwnaed newid sylweddol i'r cynllun nad oedd yn rhan o'r ymgynghoriad.

- Mae'r broses Archwiliad Cyhoeddus (EIP) yn galluogi'r Arolygydd Cynllunio i ddefnyddio trafodaeth strwythuredig ond gwybodus rhwng y partïon, mewn dull tebyg i wrandawiad, ond i ddefnyddio proses groesholi mewn perthynas â'r meysydd penodol hynny lle nododd yr arolygydd bod angen hynny.

**Cam 13 - Cyfarwyddo cwmnïau ar welliannau i gynlluniau os oes angen**

**Pwy?** Gweinidogion Cymru

**Beth?** Rhoi gwybod am unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r cynllun o ganlyniad i sylwadau a dderbyniwyd, datganiad ymateb neu ganlyniad unrhyw wrandawiadau neu ymchwiliadau.

- Gall cyfarwyddiadau fod yn berthnasol i un cwmni neu amryw o gwmnïau.

**Cam 14 - Gwrthwynebu cyfarwyddyd ar sail cyfrinachedd masnachol (os oes angen)**

**Pwy?** Cwmnïau dŵr.

**Beth?** Os oes angen, gwrthwynebu drwy hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw faterion cyfrinachedd masnachol sy'n codi o'r cyfarwyddyd.

**Cam 15 – Cadarnhau cyfarwyddyd neu roi cyfarwyddyd newydd**

**Pwy?** Gweinidogion Cymru.

**Beth?** Ystyried hysbysiad y cwmni dŵr ac a ddylid cadarnhau'r cyfarwyddyd presennol, neu ei ganslo a chyhoeddi un newydd.

**Cam 16 - Paratoi cynlluniau terfynol**

**Pwy?** Cwmnïau dŵr.

**Beth?** Paratoi cynlluniau terfynol

- Ystyried unrhyw gyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru wrth lunio cynlluniau terfynol.
- Anfon cynlluniau terfynol at Weinidogion Cymru a CNC a fydd yn cyflawni Cam 17.
- Wrth gyflwyno cynlluniau terfynol, rhaid cynnwys datganiad i gadarnhau nad yw'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth sy'n fasnachol gyfrinachol neu'n peri risg i ddiogelwch gwladol.

**Cam 17 – Gwirio cynlluniau terfynol yn erbyn cyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru**

**Pwy?** CNC a Gweinidogion Cymru.

**Beth?** Gwirio cynlluniau terfynol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n peri risg i ddiogelwch gwladol wedi'i chynnwys.

- Adrodd i'r Llywodraeth ar sut mae cyfarwyddiadau wedi'u hystyried mewn cynlluniau terfynol.
- Gwirio cynlluniau am wybodaeth sensitif newydd.
- Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer o dan Adran 18 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 i sicrhau bod y cwmni dŵr yn cyhoeddi ei gynllun rheoli adnoddau dŵr, gan gynnwys unrhyw gyfarwyddiadau a wneir ynghylch cynnwys ei gynllun.

**Cam 18 - Cyhoeddi cynlluniau terfynol**

**Pwy?** Cwmnïau dŵr.

**Beth?** Cyhoeddi cynllun terfynol.

- Cyhoeddi ar sail yr un gofynion â chyhoeddi'r cynllun drafft yng Ngham 8.
- Esbonio ei oblygiadau i gwsmeriaid a rhanddeiliaid.

**Pryd?** Dylai cwmnïau aros am gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru cyn cyhoeddi'r cynllun terfynol, a chyhoeddi gan ddilyn unrhyw ddyddiadau a nodir yn y cyfarwyddyd.

| Cam 19 – Adolygiad o gynlluniau rheoli adnoddau dŵr |
|---|

**Pwy?** Cwmnïau dŵr.

**Beth?** Dechrau'r cylch i adolygu'r WRMP os bydd amgylchiadau'n newid yn sylweddol neu os bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i wneud hynny. Newidiadau sylweddol yw'r rhai sy'n cael effaith sylweddol ar gwsmeriaid neu'r amgylchedd naill ai drwy golli diogelwch cyflenwad neu filiau uwch. Fel arfer, ni fyddai angen WRMP diwygiedig ar newidiadau nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar ddiogelwch cyflenwad neu filiau cwsmeriaid.

**Pryd?** Pan fo newid sylweddol mewn amgylchiadau yn effeithio ar unrhyw agwedd ar eich WRMP, rhaid i chi baratoi ac ail-gyhoeddi cynllun diwygiedig o fewn 12 mis i'r newid. Dylai'r broses o ddiwygio cynlluniau ddechrau yn y cyfnod cyn ymgynghori (Cam 2).

Rhaid i chi adolygu ac ailgyflwyno eich WRMP heb fod yn hwyrach na phum mlynedd ar ôl i'ch WRMP diwethaf gael ei gyhoeddi. Mae hyn ar wahân i unrhyw adolygiadau blynyddol o'r WRMP.

Os oes angen i chi newid eich WRMP wrth i amgylchiadau newid, dylech adrodd hyn drwy'r broses adolygu flynyddol. Rhaid i chi roi gwybod yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, Ofwat a CNC os oes newid ac yna cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd cyn gynted â phosibl os bydd unrhyw un o'r newidiadau sylweddol yn effeithio ar ardaloedd yn Lloegr.

Rhaid i chi roi manylion yr holl newidiadau i'ch WRMP yn yr adolygiad blynyddol. Gallwch roi gwybod i unrhyw bartïon sydd wedi gwneud sylwadau ar y cynlluniau drafft am unrhyw newidiadau i'r WRMP terfynol hefyd neu, fel arall, eu gwneud yn ymwybodol o'r adolygiad blynyddol, a fydd yn disgrifio'r newidiadau hyn.

Dylech gyhoeddi eich adolygiadau blynyddol ar eich gwefan fel y gall cwsmeriaid a grwpiau â diddordeb weld y cynnydd sy'n cael ei wneud.

**Amserlen Ddangosol ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a'r Adolygiad Prisiau**

Mae'r amserlen a ddarperir yma yn ddangosol a gall newid. Anogir cwmnïau dŵr i drafod newidiadau neu faterion posibl gyda Llywodraeth Cymru.

- Dechrau ar y broses cyn ymgynghori ar y WRMP drafft – Tymor yr Hydref 2021
- Proses cyn ymgynghori uwch – Ionawr 2022
- Cyflwyno WRMP drafft i Lywodraeth Cymru - Medi 2022

- Dechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus – Tachwedd 2022 (am o leiaf 12 wythnos)
- Cyhoeddi Datganiad Ymateb a chynllun diwygiedig – Mai 2023 (o fewn 26 wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r WRMP drafft ar gyfer ymgynghori)
- Cyhoeddi WRMP terfynol – Medi 2023 neu pan gytunir arno gan Weinidogion Cymru